



TELERAU AC AMODAU ARCHEBU'R CWRS BYR

Diolch am eich cais ar gyfer Cwrs Byr NFTS Cymru Wales.

Fe'ch hysbysir yn awtomatig drwy'r wefan bod eich cais wedi bod yn llwyddiannus. Ni chaiff eich lle ei gadw nes bod eich cais wedi cael ei adolygu a bod statws eich cais yn newid i 'cynnig' ar wefan NFTS.

Mae'r lle a gynigir i chi ar y cwrs wedi'i gadw am 10 diwrnod gwaith, yn amodol ar gapasiti'r cwrs.

Os ydych yn derbyn cynnig am le, a'r telerau ac amodau canlynol, bydd eich cais yn symud ymlaen i'r cam talu, y gellir ei wneud drwy wefan NFTS.

Llefydd Corfforaethol

Os ydych wedi gofyn am le corfforaethol (os bydd eich cyflogwr yn talu amdanoch), caiff eich lle ei gadarnhau pan fydd statws eich cais yn newid i 'cynnig' ar y wefan. Anfonir anfoneb, yn amodol ar delerau talu safonol, at eich cyflogwr.

Llefydd Bwrsariaeth

Os ydych wedi dewis eich bod yn gwneud cais am fwrsariaeth, rhaid i chi gyflwyno eich cais am fwrsariaeth yn yr un ffordd â'ch cais am y cwrs. Mae manylion ar sut i wneud cais am fwrsariaeth ar dudalen y cwrs ar y we. Bydd eich cais yn cael ei adolygu yn ei gyfanrwydd ac, os yn llwyddiannus, anfonir llythyr atoch yn cynnig bwrsariaeth gyda manylion y swm a gynigir.

Taliad

Gwnewch yn siŵr eich bod yn talu'n brydlon oherwydd os bydd cwrs wedi'i or-danysgrifio, mae ymgeiswyr sydd heb dalu yn agored i golli eu lle.

Sylwer, ar ôl talu eich ffioedd, bydd contract yn cael ei ffurfio gyda'r Ysgol a fydd yn amodol ar y Telerau a'r Amodau a nodir yn y ddogfen hon. Cymerwch amser i'w darllen yn ofalus oherwydd bod talu ffioedd yn cael ei ystyried fel derbyn y Telerau a'r Amodau.

Os, ar ôl derbyn eich lle, nad yw bellach yn bosibl i chi fynychu, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn gynnig eich lle i ymgeisydd arall. Efallai na chaniateir i chi fod yn bresennol nes bod y ffioedd wedi'u talu.

Mae ffioedd, dyddiadau ac amseroedd cyrsiau fel yr hysbysebwyd, oni bai eu bod yn cael eu cyfathrebu a'u cytuno fel arall gyda chi. I gwblhau cwrs yn llwyddiannus, mae angen presenoldeb llawn. Bydd gwybodaeth cyn y cwrs, gan gynnwys unrhyw waith paratoi sydd ei angen a gwaith cartref, yn cael ei roi cyn dyddiad y cwrs.

1. Canslo'r cwrs

Bydd canslo cwrs fwy na 10 diwrnod gwaith cyn i'r cwrs ddechrau yn derbyn ad-daliad llawn.

Bydd canslo rhwng 10 a 2 ddiwrnod gwaith yn destun isafswm ffi o 15% am gostau banc/gweinyddol.

Bydd canslo 2 ddiwrnod gwaith neu lai yn derbyn ad-daliad o 50%.

2. Sut allwn wneud newidiadau i'r contract a sut allai hyn effeithio arnoch chi

Er y bydd yr Ysgol wastad yn ceisio lleihau newidiadau i gyrsiau, gall fod adegau pan fydd angen gwneud newidiadau. Gellir gwneud y rhain i:

- Ddelio â newidiadau staff na ellir eu hosgoi
- Mynd i'r afael â a/neu gymryd camau mewn ymateb i fygythiad diogelwch
- Yng ngoleuni adborth myfyrwyr
- Mynd i'r afael ag argaeledd llefydd dysgu
- Unrhyw reswm dilys arall.

Gall y rhesymau uchod arwain at wneud nifer o newidiadau gwahanol mewn ymateb, mae'r rhain yn cynnwys:

- Ail-drefnu dyddiadau eich cwrs
- Newidiadau i'r staff sy'n cyflwyno eich cwrs
- Newidiadau rhesymol i'r amserlen ar gyfer cyflwyno eich cwrs
- Newidiadau rhesymol i'r dulliau y cyflwynir y cwrs
- Amrywiadau rhesymol i gynnwys y cwrs
- Newidiadau i leoliad eich cwrs

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau naill ai'n uniongyrchol neu drwy Arweinydd eich Cwrs ac yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i chi. Os na chytunwch â newid mawr a wnawn i'r Contract, bydd gennych hawl i derfynu'r Contract ac efallai y bydd gennych hawl i gael ad-daliad priodol o'r ffioedd rydych wedi'u talu i ni.

3. Model Cyflwyno

Mae NFTS Cymru Wales yn cynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb corfforol mewn lleoliadau cwrs-benodol yng Nghaerdydd (a/neu leoliadau eraill yng Nghymru), ar-lein yn yr Ystafell Ddosbarth Rithiol (drwy Zoom) a modelau cyfunol lle bo'n briodol. Yng ngoleuni pandemig COVID-19, mae NFTS

Cymru Wales yn cadw'r hawl i newid y model cyflwyno hyfforddiant yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, lle bo'n briodol.

4. Presenoldeb

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn hanfodol, ar gyfer dysgu effeithiol ac er mwyn sicrhau bod y cyrsiau yn rhedeg yn iawn. Disgwylir i gyfranogwyr ymrwymo'n gryf i bob agwedd ar y cwrs ac efallai y gofynnir i chi adael eich cwrs os byddwch chi'n methu â mynychu unrhyw ran ohono heb reswm da.

Yn gyffredinol, mae'r Ysgol yn gweithredu wythnos pum niwrnod o 09.30-17.30, ac oni bai am resymau iechyd neu dosturiol, ni ellir caniatáu amrywiadau i hynny. Yn gyffredinol, mae cyrsiau gyda'r nos yn cael eu cynnal rhwng 18.00 a 21.00 a chyrsiau'r bore rhwng 10.00 a 13.00.

Dylai cyfranogwyr gysylltu ag Arweinydd y Cwrs ar unwaith os na allant fynychu eu cyrsiau am unrhyw reswm.

5. Ymddygiad

Disgwylir i gyfranogwyr ymddwyn mewn ffordd resymol tuag at fyfyrwyr eraill waeth beth fo'u hil, lliw, gwreiddiau ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, credoau crefyddol, statws economaidd neu ddsbarth.

O ran torri **Polisi Aflonyddu yr Ysgol, Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth** neu bolisiau iechyd a diogelwch ein partneriaid cydweithredol, efallai y gofynnir i gyfranogwr adael y cwrs.

Gellir cymryd camau yn erbyn cyfranogwr am gynnydd anfoddhaol o ran ei bresenoldeb, ei ymddygiad a'i agwedd. Gallai hyn arwain at wahardd cyfranogwr o'r cwrs.

6. Cwynion

Croesawn sylwadau am eich profiad o fod yn rhan o gwrs yn yr Ysgol ac ystyried gwelliannau lle gallwn. Os oes rhywbeth rydych yn anhapus ag ef, dywedwch wrthym ar unwaith fel y gallwn unioni pethau, os yn bosib.

7. Terfynu

Gall yr Ysgol derfynu ei pherthynas â chi yn ysgrifenedig ar unwaith os:

- i. Yn ein barn resymol, rydych wedi methu â darparu'r holl wybodaeth berthnasol i'r Ysgol, neu wedi darparu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol sy'n ymwneud â'ch cais ar gyfer eich cwrs;
- ii. Mae eich ymddygiad yn risg sylweddol i iechyd, diogelwch neu lesiant eich hun neu eraill;
- iii. Rydych wedi achosi difrod i offer drwy esgeulustod.

8. Atebolrwydd

Os ydym yn methu â chydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan y Contract hwn, rydym yn gyfrifol am golled neu ddifrod rydych yn ei ddioddef sy'n ganlyniad rhagweladwy o dorri'r Contract hwn neu ein hesgeulustod, ond nid ydym yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod na ellir ei ragweld. Gellir rhagweld colled neu ddifrod os oeddent o ganlyniad amlwg i'n toriad neu os cawsant eu hystyried gennych chi a ninnau ar yr adeg yr ymrwymwyd i'r contract hwn.

Ni fyddwn yn gyfrifol i chi am unrhyw un o'r canlynol, oni bai ein bod wedi bod yn esgeulus:

- Difrod neu ddwyn cerbydau a beiciau sydd wedi'u parcio ar safleoedd a ddefnyddir gennym ar gyfer cyflwyno ein cyrsiau
- Difrod neu ddwyn offer cyfrifiadurol (gan gynnwys haint â firws cyfrifiadurol)
- Anaf sy'n deillio o weithgaredd gwirfoddol
- Anaf personol neu farwolaeth ac eithrio os cafodd ei achosi gan esgeulustod staff yr Ysgol
- Colli cyfle a cholli incwm neu elw, ym mha bynnag ffordd mae'n digwydd
- Unrhyw golled o ganlyniad i dwyll seiber

Nid ydym yn eithrio nac yn cyfyngu mewn unrhyw ffordd ein hatebolrwydd am:

- Marwolaeth neu anaf personol a achosir gan ein hesgeulustod neu esgeulustod ein gweithwyr, asiantau neu isgontractwyr
- Twyll neu gamliwio twyllodrus, neu
- Unrhyw fater arall lle na chaniateir i ni eithrio na chyfyngu ar ein hatebolrwydd yn ôl y gyfraith.

Ni fydd yr Ysgol yn atebol i chi am unrhyw ddigwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, nac am oblygiadau unrhyw ddigwyddiadau y tu hwnt i'n rheolaeth resymol, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: streiciau, gweithredu diwydiannol eraill, salwch staff neu fyfyrwyr, tywydd garw, tân, cythrwfl sifil, terfysg, goresgyniad, ymosodiad terfysgol neu fygythiad o ymosodiad terfysgol, rhyfel (p'un a yw wedi'i ddatgan ai peidio), trychineb naturiol, clefyd epidemig neu bandemig, gweithredoedd Duw, methiant cyfleustodau cyhoeddus neu systemau trafniadaeth, gweithredoedd neu ddiffygion darparwyr lleoliadau, cyflenwyr neu isgontractwyr, offer neu beiriannau yn torri, neu argyfyngau cenedlaethol.

9. Yswiriant

Ni fydd yr ysgol yn yswirio eich eiddo personol a dylech ystyried trefniadau i wneud hynny eich hun os ydych eisiau cael yswiriant.

10. Diogelu Data

Mae'r Ysgol yn defnyddio eich data personol fel y nodir yn ei **Bolisi Diogelu Data** a'r **Hysbysiad Preifatrwydd Cyfranogwyr**. Oni bai eich bod yn gwrthwynebu, bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â'ch cofrestrriad yn cael ei rhannu â'n hadran Cyn-Fyfyrwyr er mwyn i ni allu cadw mewn cysylltiad ar ôl i chi adael yr Ysgol. Mae mwy o wybodaeth am hyn ar gael yn **Hysbysiad Preifatrwydd Cyn-Fyfyrwyr**.

11. Eich hawl gyfreithiol i ganslo

Ar ôl derbyn lle ar y cwrs hwn, mae gennych hawl i ganslo am unrhyw reswm yn ystod cyfnod canslo 14 diwrnod, a fydd yn dod i ben 14 diwrnod o ddyddiad talu eich ffioedd. Os ydych wedi dechrau ar y cwrs yn ystod y cyfnod canslo, byddwch yn talu swm i ni sy'n gymesur â'r amser y buoch ar y cwrs nes i chi gyfathrebu â ni eich bod yn canslo'r contract hwn. Gallwch ganslo eich bod yn derbyn drwy anfon e-bost atom wales@nfts.co.uk

12. Cyfraith ac awdurdodaeth lywodraethol

Mae'r contract rhyngoch chi a'r Ysgol yn cael ei lywodraethu gan gyfraith Loegr. Rydych chi'n hysbysu a'n hysbysu bod gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth dros unrhyw anghydfodau a allai godi o dan y contract hwn.

Serch hynny, os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon gallwch hefyd ddwyn achos yng Ngogledd Iwerddon, ac os ydych yn byw yn yr Alban, gallwch hefyd ddwyn achos yn yr Alban.

13. Hysbysiadau

Os oes angen i chi gysylltu â'r Ysgol neu os oes angen y ddogfen hon mewn fformat arall, cysylltwch â'r Cofrestrydd yn registry@nfts.co.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, cysylltwch â ni yn wales@nfts.co.uk neu ffoniwch Rhiannon Forsyth (Rheolwr Datblygu NFTS Cymru Wales) ar 07944 723 847.

Edrychwn ymlaen at eich croesawu ar y cwrs hwn.

NFTS Cymru Wales yw hwb yr Ysgol Ffilm a Theledu Genedlaethol

d/o BBC Cymru Wales, 3 Sgwâr Canolog, Caerdydd, CF10 1FT

www.nfts.co.uk/nfts-cymru-wales